

The Rt Hon Amber Rudd MP  
Home Secretary  
Home Office  
2 Marsham Street  
London  
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AJ/HE/

25 Tachwedd/November2016

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Dear Home Secretary ,

**PEEL: Effeithlonrwydd yr Heddlu 2016- Archwiliad o Heddlu Gogledd Cymru**

**PEEL: Police efficiency 2016- An inspection of North Wales Police**

Yn ôl gofyniad statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar adroddiad PEEL Arolygiaeth Heddluoedd ei Mawrhydi (AHEM) ar effeithlonrwydd.

As required by statute, I am writing to you with my comments on the Her Majesty's Inspectorate of Constabulary (HMIC) PEEL report on efficiency.

Rwy'n croesawu'r adroddiad ar Effeithiolrwydd yr Heddlu ac mae'n galonogol bod yr asesiad a wnaed gan Arolygiaeth ei Mawrhydi wedi datgelu bod Heddlu Gogledd Cymru'n dda am leihau troseddu a chadw'u cymunedau'n ddiogel. Yn ychwanegol, bydd yr adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd i bobl Gogledd Cymru bod yr Heddlu yn gweithio i ddiogelu eu cymunedau lleol.

I welcome the report on Police Efficiency and it is encouraging that the assessment made by Her Majesty's Inspectorate revealed that North Wales Police are good at reducing crime and keeping their communities safe. In addition, this report will provide reassurance to the people of North Wales that the Force is working to protect their local communities.

Rydw i'n falch o weld na chyflwynwyd unrhyw argymhellion a dim ond at un maes y tynnwyd sylw o ran angen gwelliant. Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod yr Heddlu'n archwilio galluoedd y gweithlu'n rheolaidd er mwyn adhabod bylchau yn ei sgiliau presennol, yn enwedig mewn ymateb i broffil newidiol troseddu.

I am pleased to see that no recommendations were given and only one area has been highlighted for improvement. I will work with the Chief Constable to ensure that the Force regularly audit their workforce's capabilities to identify gaps in its current skills, particularly in response to the changing profile of crime.

Nododd yr adroddiad ganlyniad positif yr adolygiad cynhwysfawr a gynhaliwyd gan yr Heddlu ac sydd, fel canlyniad, wedi gweld yr Heddlu'n meddu ar ddealltwriaeth dda o'r galw presennol ac i'r dyfodol. Mae hyn yn sgil hanfodol wrth ddarparu heddlu digonal i bobl Gogledd Cymru.

The report identified the positive result of the comprehensive review carried out by the force which has resulted in the force having a good understanding of current and future demand. This is an essential skill in providing a sufficient police force for the people of North Wales.

Mae'r galw ar yr heddlu'n newid yn gyson, yn enwedig gyda throseddu'n esblygu. Mae ymddangosiad troseddau megis camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern a throseddau seiber wedi cael effaith arwyddocaol ar blismona modern. Rydw i'n fodlon bod yr Heddlu wedi bod yn llwyddiannus yn mynd i'r afael â llenwi'r bylchau hyn yn y meysydd arbenigol trwy sefydlu timau megis y timau troseddau seiber a throseddau uwch-dechnoleg i weithio tuag at amddiffyn pobl fregus.

Mae yna nifer o ddatblygiadau fydd yn cynyddu'r galw ar yr Heddlu yn y dyfodol megis Carchar Y Berwyn yn Wrecsam ac Wylfa Newydd ac mae'n galonogol bod AHEM wedi adnabod a chanmol y gwaith cydweithio sy'n digwydd rhwng yr Heddlu a'r awdurdodau lleol gyda'r prosiectau hyn.

Mae Gogledd Cymru yn ardal ddaearyddol amrywiol ac mae'n dda gen i adrodd bod yr adroddiad wedi nodi bod yr Heddlu'n ystyried ffyrdd i fuddsoddi mwy o amser gydag ardaloedd anodd eu cyraedd, yn enwedig o ran codi ymwybyddiaeth am gamfanteisio'n rhywiol ar blant a thrais domestig. Mae gwaith yr Heddlu gyda'r bwrdd diogelu rhanbarthol wedi sicrhau bod y rhannau hyn o Ogledd Cymru bellach yn derbyn y negeseuon pwysig.

O fewn yr adran 'cynyddu effeithlonrwydd', mae'r adroddiad yn datgan na fyddai'r Heddlu yn llawn sylweddoli holl gostau ei wasanaethau hyd nes bydd yr adolygiad ar effeithlonrwydd wedi'i gwblhau. Mae'n galonogol bod yr Heddlu wedi gwneud gwelliannau ar sail arolwg 2015 ac rwy'n fodlon fod gan yr Heddlu bellach ddealltwriaeth lawn o'u costau gan fod yr arolwg yn nesáu at y terfyn.

The demand on the force is continuously changing especially with the evolution of crime. The emergence of crimes such as child sexual exploitation, modern slavery and cybercrime has had a significant effect on modern day policing. I am satisfied that the Force has been successful in addressing the gaps in these specialist areas by establishing teams such as the cybercrime and high tech crime teams to work towards protecting vulnerable people.

There are a number of future developments that will increase demand on the Force such as HMP Berwyn at Wrexham and Wylfa Newydd and it is encouraging that HMIC have identified and praised the collaborative work ongoing between the Force and the local authorities in relation to these projects.

North Wales is geographically diverse and I am pleased that the report identified that the Force is considering ways to invest more time with hard to reach areas, especially to raise awareness of child sexual exploitation and domestic violence. The Force's work with the regional safeguarding board has ensured that these hard to reach areas of North Wales are receiving these important messages.

Within the section 'increasing efficiency' the report states that the Force would not fully understand all of the costs of its services until their efficiency review has been finalised. It is encouraging that the Force have made improvements on the 2015 inspection and I am satisfied that the Force now has a full understanding of their costs because their internal review is close to finalisation.

Mae'r adroddiad yn crybwyl yr angen i ddatblygu TGCh yn yr Heddlu er mwyn cynorthwyo swyddogion a'u prosesau. Yn ystod fy ymgyrch ym mis Mai, un o'r meysydd a oedd yn fwriad gen i weithredu arno'n gynnar oedd prynu offer fideo a wisgir ar y corff. Cwblhawyd hyn ym mis Gorffennaf ac mae 306 o unedau ychwanegol wedi'u prynu ac wrthi'n cael eu defnyddio ar y rheng flaen.

Mewn perthynas â'r diffyg ymchwilio i fuddion technoleg newydd, mae hwn yn faes y byddaf yn craffu arno. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi nad oes derbyniaid cyflawn i ddata symudol ledled Gogledd Cymru a byddai prynu tabled i bob swyddog ddim o reidrwydd o unrhyw werth. Rwy'n cytuno gyda'r Heddlu wrth iddynt oedi cyn prynu nifer fawr o ddyfeisiadau symudol er mwyn sicrhau bod y gweithlu'n gweithio'n effeithiol.


Yn olaf, hoffwn ddiolch ichi am gomisiyny'r arolygiad hwn ac fe fyddaf yn ymgymryd â chraffu pellach ar sail eich casgliadau.

The report mentions the need for further development in ICT within the Force to assist officers and their processes. During my campaign in May one of the areas that I aimed to implement early on was the purchase of body worn video. This action was completed in July and a further 306 units have been purchased and are now being used on the frontline.

In relation to the lack of investigation into the benefits of new technology this is an area that I will be scrutinising. However, it must be noted that there isn't complete mobile data coverage in North Wales and purchasing a tablet for each officer wouldn't necessarily be of any beneficial value. I am in agreement with the Force in their hesitation on purchasing a large number of mobile devices to ensure that the force is working efficiently.

Lastly I would like to thank you for commissioning this inspection and I will be undertaking further scrutiny based on your findings.

Yn gywir Yours sincerely



Arfon Jones  
Comisiynydd Heddlu / Police Commissioner

Copi:

Mark Polin, Prif Gwnstabl  
Wendy Williams, Arolygiaeth Heddluoedd EM,  
Cymru a Rhanbarth Gorllewin Lloegr

Copy:

Mark Polin, Chief Constable  
Wendy Williams, HM Inspectorate of Constabulary,  
Wales and the Western Region